# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bryn Clwyd

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bryn Clwyd yn ysgol wresog, gyfeillgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus, yn ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn rhagorol, ac maent yn dangos parch canmoladwy at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn mwynhau dysgu ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae’r ysgol wedi’i ffedereiddio ag Ysgol Gellifor, sydd wedi’i lleoli gerllaw. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu corff llywodraethol a phennaeth. Mae staff ar bob lefel yn gweithio gyda’i gilydd yn agos, er enghraifft i gynllunio gweithgareddau dysgu difyr a datblygu’r amgylchedd dysgu.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol ac effeithiol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae’n ei rhannu’n effeithiol ar draws cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth i werthuso gwaith yr ysgol ac mae ganddynt hanes cadarn o wneud gwelliannau effeithiol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her bwrpasol.

Un o gryfderau arbennig yr ysgol yw ei darpariaeth anogol, sy’n cefnogi lles emosiynol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae staff yn creu amgylcheddau tawel a diogel ac yn darparu cymorth personoledig sy’n helpu disgyblion i deimlo’n ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr, gan gynnwys defnydd pwrpasol o’r awyr agored, sy’n datblygu medrau a diddordebau disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig ac yn elwa ar y cyfleoedd amrywiol hyn. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant darllen cryf, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg. Mae gallu mwyafrif y disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd yn gyfyngedig, a megis dechrau datblygu y mae darpariaeth i gefnogi datblygiad disgyblion yn y Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol dros gyfnod, ond mae cyfleoedd i gymhwyso’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau dilys yn gyfyngedig. Mae adborth athrawon, ar adegau, yn cynorthwyo disgyblion i wella’u gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw bob tro’n canolbwyntio’n ddigon da ar agweddau penodol ar waith disgyblion y mae angen eu gwella.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn gyson

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson a phwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Parhau i ddatblygu medrau disgyblion wrth siarad Cymraeg

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025